# Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-13-07)

## SLC78

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**
**Enw : Rheoliadau ar y Cyfyngiadau Allforio a Symud (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2007**

-gweithredu yng Nghymru Benderfyniad y Comisiwn rhif 2007/746/EC sy'n addasu ymhellach Benderfyniadau'r Comisiwn 2007/709/EC, 2007/746/EC a 2007/554/EC. Mewn perthynas â Chymru, prif effaith y Rheoliadau yw na fydd Cymru mwyach o dan gyfyngiad i symud ac allforio cynnyrch anifeiliaid yn cynnwys plasm cenhedlu. Er bod allforio anifeiliaid byw yn parhau dan waharddiad bydd mewnforio anifeiliaid byw yn cael ei ganiatau a bydd symud anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid rhwng mannau a restrir yn cael ei ganiatáu o dan amodau penodol.

Gwnaed y Rheoliadau a daethant i rym ar 20 Tachwedd 2007 ar yr amseroedd a nodir yn y Rheoliadau. Mae Rheoliadau 5 i 9 (sy'n ymwneud ag allforio cig, cynnyrch cig a llaeth) a rheoliadau 11 i 14 (sy'n ymwneud ag allforio lledr a chrwyn, cynnyrch anifeiliaid, eithrio a gorfodi dogfennau) yn peidio bod â grym ar 15 Rhagfyr 2007; mae gweddill y Rheoliadau yn peidio bod â grym ar 31 Rhagfyr 2007.

Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 6) 2007 wedi'u dirymu.

**Trefn: Negyddol**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg).

Cynghorwyd y Llywydd, oherwydd hyd y Rheoliadau a'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru ar unwaith, y credai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig na fyddai'n rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog mewn da bryd ond y byddai cyfieithiad Cymraeg ar gael maes o law.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Tachwedd 2007